PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 2**
**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**
Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

**Adnodd 7**

# *Cenedlaetholdeb: Nodweddion Allweddol*

## Canllaw i Athrawon

International Politics Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn, ***Cenedlaetholdeb: Nodweddion Allweddol***, yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 2: Cyflwyniad i Syniadau Gwleidyddol***. Mae pob un o'r adnoddau sy'n rhan o'r e-lawlyfr hwn wedi'u teilwra'n arbennig i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 3 o fanyleb CBAC ym maes Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.'

Bwriad yr adnodd hwn yw rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i adran 3.4.1 o'r fanyleb, sef 'Gwerthoedd a Syniadau Sylfaenol Cenedlaetholdeb'. Gwneir hynny trwy gynnig cyflwyniad i rai o'r elfennau cenedlaetholgar allweddol a gaiff eu rhestru yn yr adran hon o'r fanyleb, er enghraifft, y genedl, cymuned organig, sofraniaeth a hunanbenderfyniaeth. Rhoddir sylw hefyd i'r drafodaeth ynglŷn â gwreiddiau cenhedloedd a chenedlaetholdeb. Dylid nodi bod cysylltiad agos rhwng yr adnodd hwn ac Adnodd 8, Cenedlaetholdeb: Ffrydiau Amrywiol, sy'n cyflwyno rhai o'r ffurfiau gwahanol ar genedlaetholdeb sydd hefyd yn cael eu rhestru yn adran 3.4.1 o'r fanyleb.

Bwriad y canllaw byr yma yw cynnig amlinelliad o gynnwys yr adnodd a hefyd gorolwg o'r math o ymarferion a geir yn y llawlyfr gwaith.

## Cynnwys y Llawlyfr Gwybodaeth

I ddechrau, mae'r llawlyfr gwybodaeth yn cynnig gorolwg o'r drafodaeth ynglŷn â gwreiddiau cenhedloedd a chenedlaetholdeb. Fel rhan o hyn cynigir cyflwyniad bras i'r dehongliadau prifordaidd a modernaidd ac eglurir bod hanfod yr anghydweld rhwng y ddau safbwynt hwn yn seiliedig ar y graddau y caiff hunaniaeth genedlaethol ei thrin fel ffenomen oesol ynteu un ddiweddar iawn.

Yna, cynigia'r llawlyfr gwybodaeth gyflwyniad cyffredinol i amryw o'r elfennau hynny sydd wedi dod i hawlio lle canolog yn y byd-olwg Cenedlaetholgar, gan gynnwys y genedl, y syniad o gymuned organig, sofraniaeth genedlaethol a hunanbenderfyniaeth cenedlaethol. Trafodir pob elfen yn ei thro, ac ym mhob achos fe gynigir eglurhad o unrhyw egwyddorion neu gysyniadau perthnasol.

Tra bo'r gwahanol elfennau a gyflwynir yn yr adnodd hwn yn rhai sydd wedi dod i gael eu trin fel rhai sydd wedi tueddu i nodweddu'r byd-olwg cenedlaetholgar fe ddylid nodi hefyd fod cenedlaetholdeb yn draddodiad hynod o amrywiol sydd wedi cwmpasu ystod eang o safbwyntiau gwleidyddol dros y blynyddoedd. Fe ddaw hyn yn fwy amlwg i'r disgyblion wrth iddynt fynd ati i ystyried cynnwys Adnodd 8 sydd yn manylu ar ffurfiau gwahanol ar genedlaetholdeb gan gymharu cenedlaetholdeb ethnig a dinesig a hefyd cenedlaetholdeb rhyddfrydol a cheidwadol.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Mae'r llawlyfr gwaith yn cynnwys cyfres o gwestiynau sy'n canolbwyntio yn eu tro ar bob un o'r themâu allweddol a drafodwyd yn y llawlyfr gwybodaeth. Gofynnir i'r disgyblion ysgrifennu cyfres o baragraffau sy'n cynnig atebion i'r cwestiynau yma. Nod hyn yw cynnig cyfle iddynt lunio amryw o ddarnau byr sy'n crynhoi mewn modd digon syml pam mae Cenedlaetholwyr wedi tueddu i roi pwyslais mawr ar elfennau o'r fath. Fel opsiwn arall, fe ellid defnyddio'r cwestiynau yn y llawlyfr gwaith fel sail ar gyfer cyfres o drafodaethau grŵp.

## DARLLEN PELLACH

Richard Wyn Jones *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007), gweler pennod 1, yn enwedig tud 4-40.

Umut Özkirimli *Theories of Nationalism: A Critical Introduction* (Basingstoke: Palgrave Macmillan), gweler penodau 3, 4 a 5.

Andrew Vincent, *Modern Political Ideologies* (Rhydychen, Wiley-Blackwell, 2010), pennod ar Genedlaetholdeb, tud 226-60.